Mae'r ymgynghoriad bellach wedi dod i ben

**Y model ailddilysu arfaethedig**

Bu'n ddyletswydd broffesiynol ar nyrsys a bydwragedd erioed i gynnal eu haddasrwydd i ymarfer drwy gyfeirio at y safonau, y gwerthoedd a'r ethos a nodwyd yn Y Cod. Yn gynyddol, mae rheoleiddwyr proffesiynau gofal iechyd yn cyflwyno gweithdrefnau - elwir yn ailddilysu - ar gyfer y rhai sydd wedi cofrestru. Yn hytrach nag aros am ddeddfwriaeth newydd, mae'r NMC yn cyflwyno ailddilysu o dan ddarpariaethau statudol sy'n bodoli eisoes.

Felly, ailddilysu yw'r broses newydd y mae'n ofynnol i nyrsys a bydwragedd ddangos yn rheolaidd i'r NMC eu bod yn parhau i gydymffurfio â'r gwerthoedd a'r egwyddorion yn y Cod, ac felly yn addas i ymarfer.

Bydd y model ailddilysu arfaethedig yn disodli'r ffurflen adnewyddu bob tair blynedd a'r ffurflen Hysbysu Ymarfer. Bob tro y mae nyrs neu fydwraig yn adnewyddu eu cofrestriad, bydd yn ofynnol iddynt gymryd cyfrifoldeb personol dros ddatgan eu bod yn parhau i fod yn addas i ymarfer. Ynghyd â hyn, bydd angen iddynt ddatgan eu bod:

- Wedi cael cadarnhad bod eu datganiad o addasrwydd i ymarfer yn ddibynadwy yn unol â Chod yr NMC;
- Wedi cael adborth trydydd parti, sydd wedi gwneud iddynt fyfyrio ar eu hymarfer yn seiliedig ar ofynion y Cod, er enghraifft gan gleifion, perthnasau neu gydweithwyr;
- Wedi bodloni'r gofynion ar gyfer oriau ymarfer a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Caiff yr holl ffactorau hyn eu hesbonio'n fwy manwl yn nes ymlaen yn y ffurflen ymateb.

Proses orfodol fydd hon a gall cofrestriad nyrs neu fydwraig fod mewn perygl os na fydd yn cymryd rhan.

Bydd y gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer sy'n bodoli eisoes yn parhau, ac os daw'r NMC i wybod am unrhyw anonestrwydd neu gyd-dwyllo mewn perthynas â'r dystiolaeth sy'n ategu'r datganiad, gallai camau gael eu cymryd o dan y gweithdrefnau hyn. Yn ogystal, bydd cyflogwyr a chofrestrwyr yn dal i allu codi pryderon difrifol ynghylch addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer drwy'r gweithdrefnau hyn, yn hytrach na dibynnu ar y broses ailddilysu.

Yn gyffredinol, nod y cam ailddilysu yw diogelu'r cyhoedd yn well drwy wneud nyrsys a bydwragedd cofrestredig yn rhan o broses strwythuredig lle y maent yn ystyried sut i gynnal eu haddasrwydd i ymarfer, wedi'u hategu gan adborth gan gleifion neu gydweithwyr a chadarnhad trydydd parti.